

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Croes Atti

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod o fedrau dros eu cyfnod yn Ysgol Croes Atti. Cryfder amlwg yr ysgol hon yw sut mae arweinwyr a staff brwdfrydig yn cydweithio'n llwyddiannus rhwng dau safle'r ysgol, yn y Fflint ac yn Shotton yng Nglannau Dyfrdwy, er mwyn datblygu disgyblion cyfrwng Cymraeg hyderus. Mae gwaith y staff i sicrhau datblygiad iaith Gymraeg y disgyblion yn glodwiw.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae hyn yn cynnwys adnabod anghenion disgyblion, y gymuned a chryfderau a meysydd i'w gwella yn dda. Gyda'r wybodaeth yma wrth law, maent yn gosod cyfeiriad clir i'r ysgol ac yn gweithredu'n strategol wrth osod blaenoriaethau synhwyrol a chryfhau'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae darpariaeth gadarn ar waith i gefnogi lles disgyblion ac i wella safonau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn gadarn iawn, ac yn llwyddo i gynnal a chryfhau lles holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae'r addysgu da a'r cynllunio a wna'r athrawon i ddarparu cwricwlwm a phrofiadau dysgu difyr yn sicrhau bod gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Drwy hyn, mae'r disgyblion yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ysgol ac maent yn awyddus i gwblhau a dyfalbarhau â'u gwaith yn ddiwyd.

Mae gwaith a ffocws yr ysgol i ddatblygu disgyblion yn ddysgwyr annibynnol yn cael llwyddiannau amlwg, gan amlaf. Maent yn cael cyfleoedd i ddylanwadu'n fawr ar fywyd a gwaith yr ysgol, yn cyfrannu tuag at yr hyn yr hoffent ei ddysgu a gan amlaf yn cael cyfleoedd i lywio eu dysgu mewn gwersi yn synhwyrol. Er hyn, mae ychydig o agweddau'r addysgu a'r cynllunio yn cyfyngu'r disgyblion rhag datblygu medrau dysgu annibynnol o'r radd flaenaf. Fe welir canlyniad hyn gyda llai o gyfleoedd iddynt ysgrifennu'n estynedig ac yn rhydd, er enghraifft.

# Argymhellion

**A1** **Miniogi'r addysgu a'r cynllunio er mwyn adeiladu ar yr arferion gorau o ran datblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion**

**A2** **Cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion feistroli eu medrau ysgrifennu estynedig**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Croes Atti |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Y Fflint |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 269 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 197 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 39 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 32.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 19.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 12.0 |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Ionawr 2015 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/09/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16/10/2023 |
| Mae dau safle i'r ysgol hon. Mae un safle o fewn tref y Fflint a'r llall o fewn tref Shotton, Glannau Dyfrdwy. | |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.